

Busnes Agored y Cyngor - cofnodion 1 i 11 yn gynwysedig.

1. Presenoldeb, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

Presennol: John Graystone (yn y Gadair), Julie Cook, Caroline Davies, Stephen Nicholls, Toni Schiavone (Is-Gadeirydd), Cathy Clark, Sonia Reynolds (Is-Gadeirydd - hyd at ddiwedd cofnod 8), Guy Wallace Smith, Gareth Cork, Jenni Jones-Annetts, Chris Franks; a thrwy gyswllt fideo ym Mryn Menai, Bangor: Gayle Hudson, Dafydd Rhys, Nick Taylor (hyd at ddiwedd cofnod 6), David Elis-Williams. Cafwyd cworwm yn y cyfarfod.

Yn Bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Adele Gatt (Rheolwr Cyllid a'r Gyflogres), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Michelle Kerswell (Rheolwr Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg - trwy gyswllt fideo ym Mryn Menai, Bangor); Steffan Wiliam a Sioned Williams (cyfieithwyr ar y pryd yn y lleoliadau priodol).

Ymddiheuriadau: Iwan Hywel, Gerry Jenson, Daryl Leeworthy, Suzanne Samuel; Mark Baines (Pennaeth y Cwricwlwm a Pherfformiad).

Cafwyd cyflwyniadau, gan gynorthwyo cadarnhau ymarferoldeb y cyswllt fideo a dau gyfieithydd yn gweithio ar bob pen i'r cyswllt - am y tro cyntaf mewn cyfarfod o'r Cyngor. Roedd Heather Willbourn wedi ymddiswyddo ers cyfarfod blaenorol y Cyngor, a'i holynydd oedd Daryl Leeworthy fel aelod o Gyngor rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Dymunwyd yn dda i Gerry Jenson am adferiad i'w hiechyd.

2. Hyfforddiant a ffilm gwybodaeth am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Roedd y fideo 7 munud hwn, a ffilmwyd yn arbennig ar gyfer y sefydliad, yn cynnwys Chris Denham – unigolyn arweiniol Colegau Cymru ar gyflwyniad y ddeddfwriaeth. Nododd Stephen Thomas y cadarnhad cyfreithiol fod y sefydliad yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth fel sefydliad dynodedig, ac eglurodd Cath Hicks y broses o baratoi ar gyfer ei gweithredu ym mis Medi 2020, gyda Chod Ymarfer Drafft wedi'i gynhyrchu'n ddiweddar i Lywodraeth Cymru ymgynghori yn ei gylch, ac roedd angen ymatebion erbyn diwedd mis Mawrth. Ar ôl gweld y ffilm, cafwyd trafodaeth yn canolbwyntio ar y ffaith, er bod y ddeddfwriaeth yn ddarn o ddeddfwriaeth ragorol o ran ei bwriad o gryfhau'r cymorth i'r rhai 16-25 oed ag anableddau dysgu wrth iddynt bontio o'r ysgol i fywyd oedolyn, nad oedd unrhyw adnoddau ychwanegol ar gael i weithredu'r ddeddfwriaeth yn effeithiol. Cofnododd 4.7% o'n dysgwyr yn 2017-18 eu hunain fel rhai ag anawsterau dysgu neu anableddau: roedd y cyfanswm hwnnw'n cynnwys pob grŵp oed, felly roedd graddfa'r dasg statudol yn aneglur i ni ar hyn o bryd. Beth bynnag, roedd achos moesol dros ddweud y dylai cymorth cyfwerth gael ei ddarparu ar gyfer y rheiny dros 25 oed hefyd. Roedd dynodi ein Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gam nesaf pwysig: y bwriad oedd penodi rhywun o fewn y sefydliad i'r rôl honno, ac nid oedd angen iddo fod yn uwch reolwr, ond roedd rhaid iddo fod yn rhywun â chefnidir addysgu mewn addysg bellach wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru. **Gwirfoddolodd Cathy Clark ac fe'i cadarnhawyd fel aelod o'r Cyngor a fyddai'n cysylltu gyda gweithgor y staff ar y ddeddfwriaeth.**

3. Arolygiad Estyn ym mis Ionawr 2019 – adborth cychwynnol a sylwadau

Darparodd cyflwyniad PowerPoint gan Kathryn Robson yr agweddau allweddol ar yr arolygiad a gwblhawyd yn ddiweddar gan Estyn, ac roedd ei gasgliadau yn dal yn gyfrinachol. Cynhaliwyd ymweliad 8 diwrnod gan 4 AEM a 3 Arolygydd Cymheiriaid, gan ddefnyddio'r Trefniadau Arolygu Newydd a gyflwynwyd ym mis Medi 2018 ar gyfer y sector dysgu oedolion fel ymarferiad peilot. Roedd 5 Maes Arolygu, bob un wedi'i fesur ar raddfa 4-pwynt, a ble gwerthfawrogwyd cysondeb eu cymhwyso. Ni roddwyd un radd gyffredinol o dan y gyfundrefn newydd hon, ac nid oedd categori 'Rhagolygon Gwella' ychwaith mwyach. Cyflwynwyd Adroddiad Hunanasesu diweddar gennym cyn yr ymweliad, lle rhoesom farn 'Da' i ni'n hunain ym mhob un o'r 5 Maes Arolygu.

Roedd yn destun siom i ni felly i dderbyn barn 'Da' gan Estyn mewn tri Maes, a 'Digonol' mewn dau faes arall - '4 - Gofal, Cymorth ac Arweiniad', a '5 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth'. Er y gwnaethom bwyntiau cadarn wrth amddiffyn ein safbwynt yn y cyfarfod terfynol gyda'r Arolygwyr, nid oedd unrhyw sail i apelio. Gostyngwyd y radd ym Maes 4 yn bennaf yn sgil bylchau yn ein darpariaeth o ran hyfforddiant y rhaglen **Prevent** statudol i'r holl staff, yn ein hymagwedd at ddiogelu amrywiaeth aml-ethnig, ac mewn defnydd anghyson o'n dyraniad o arian ychwanegol ar gymorth dysgu a chymorth yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer anghenion mwy cymhleth rhai dysgwyr. O ran Maes 5, er y cydnabuwyd bod cryfderau yn ein llywodraethu a'n ffocws yn seiliedig ar ddysgwyr, ystyriwyd ei fod yn fethiant nad oeddem wedi gofyn neu ateb cwestiynau 'Ac Felly Beth?' yn ddigon rheolaidd, sef nid mater data'n unig, ond yn ymwneud ag effaith ein gwaith; roedd angen asesiad mwy ystyrlon o ganlyniadau ar ddilyniant ein dysgwyr, er enghraifft. Er bod arfer da yn ddiameduol mewn rhai adrannau a sectorau o'n gwaith, roedd angen lledaenu'r arfer honno yn gyffredinol i holl rannau'r sefydliad.

Teimlai rhai aelodau'r Cyngor ei fod yn gasgliad annheg braidd, gan yr ystyriwyd bod y sefydliad wedi gwneud llawer o gynnydd; teimlai rhai eraill, fodd bynnag - gan gynnwys staff - ei fod yn adlewyrchiad teg o'r realiti presennol, er ei bod yn bosibl, ymhén 6 mis arall, y gallai'r asesiad fod wedi bod yn fwy ffafriol. Roedd Michelle Kerswell o'r farn ei fod yn gadarnhaol ein bod wedi cael ein harolygu gyntaf o dan y trefniadau peilot, gan y galledd ddefnyddio'r profiad hwnnw wrth i bartneriaethau dysgu oedolion eraill, yr oeddem ni'n rhan ohonynt, gael eu hasesu yn eu tro.

Dim ond 3 argymhelliad oedd i'w gwneud gan Estyn. Cytunwyd ei bod yn bwysig cael datganiad cyhoeddus yn barod ar gyfer pan fyddai adroddiad ysgrifenedig Estyn wedi'i gwblhau ym mis Mai - rhywbeth a oedd yn dathlu ei agweddau cadarnhaol, a oedd yn ymateb yn adeiladol i'r beirniadaethau, ac yn cynnwys cynllun gweithredu ôl-arolygiad a fyddai, ynghyd â Chynllun Datblygu Ansawdd wedi'i ailwampio, yn dod yn ôl i graffu arno gan Bwyllgorau priodol y Cyngor. Roedd camau a oedd eisoes ar waith yn cynnwys diwygio'r cynnwys yn y digwyddiad bob tymor i diwtoriaid, ynghyd â datblygu ein hadnoddau Moodle ar-lein ymhellach ar gyfer tiwtoriaid. Crybwyllwyd y syniad gan fwy nag un aelod o'r Cyngor y gellid cyfuno'r Fforymau Rhanbarthol tymhorol gyda'r digwyddiadau tiwtoriaid hynny er mwyn sicrhau cynulliadau mwy sylweddol a chydlynus, gan ddiwallu anghenion y sefydliad yn ehangach.

4. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 22 Tachwedd 2018 a materion yn codi

Cafodd cofnodion y trafodion Busnes Agored ar 22 Tachwedd 2018 a gynhaliwyd yn swyddfa Unite yn Wrecsam, eu cymeradwyo fel cofnod cywir. Roedd tri phwynt o dan materion yn codi:

Cofnod 4 – setliad dyfarniad cyflog 2018: er bod y Pwyllgor Adnoddau, gydag awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor, wedi cymeradwyo'r dyfarniad cyflog ôl-ddyddiedig ym mis Rhagfyr, nid oedd hyn wedi'i weithredu eto gan fod y setliad yn dal i ddisgwyl cytundeb gan ddwy undeb llafur (NEU ac UNISON). Nid oedd undeb gydnabyddedig y sefydliad, UNITE, yn rhan o'r cyd-drafodaethau swyddogol. Byddai camau a gymerir cyn derbyn ymatebion yr undebau yn cael eu dehongli fel 'gorfodaeth', oedd i'w osgoi yn ddelfrydol, er bod Fforwm Penaethiaid Colegau Cymru wedi cytuno i'r cyfryw gamau mewn egwyddor cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn osgoi anawsterau cyllidebu a threthiant ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Derbyniwyd cyngor wedyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru sef, pe bai codiadau cyflog yn cael eu pennu heb gytundeb cyfunol yr undebau llafur, gallai'r Gweinidog Addysg gadw'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer y tâl ychwanegol hwn yn ôl. **Cytunodd y Cyngor i beidio â gorfodi'r setliad ar hyn o bryd ond roedd yn cadw'r hawl i ailystyried y safbwynt hwnnw yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth, pe bai sefyllfa ddiddatrys yn parhau. O ystyried bod penderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Adnoddau yn parhau, pe bai cytundeb gyda'r undebau llafur yn y cyfamser, yna gellid gweithredu taliad y setliad heb ystyriaeth bellach gan y Cyngor.**

Cofnod 7 - Nifer y tiwtoriaid sy'n addysgu llai na 50 awr/y flwyddyn: dangosodd ffigurau o 2017-18 ar y System Gwybodaeth Reoli fod cyfanswm o 182 o diwtoriaid wedi'u defnyddio, ac o'r rheiny roedd 139 wedi addysgu am dros 50 o oriau, a 43 islaw'r trothwy hwnnw. Roedd hyn yn cymharu â chyfanswm o 229 o diwtoriaid a ddyfynnwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn - ffigur a gynrychiolai gategori a ddisgrifir orau fel 'wedi'u hyfforddi a'u cofnodi'n swyddogol ar ein system adnoddau dynol, felly yn gymwys i addysgu ar ein rhan'. A hithau'n ymwybodol fod yna ddadl dros ddarparu gwybodaeth fanylach am ein tiwtoriaid, **ymrwymodd Cath Hicks i baratoi papur ystadegol cefndir cynhwysfawr arnynt ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ym mis Mawrth**

Cofnod 11 – Cylch gorchwyl yr Uwch Dîm Arwain a'r Uwch Dîm Rheoli: **cafodd y telerau diwygiedig a ddsbarthwyd gyda dogfennaeth y cyfarfod eu cymeradwyo, a byddent yn cael eu hadolygu ymhen 12 mis.**

5. Diweddariad ar safle Coleg Harlech

Cyfeiriodd Kathryn Robson at y ddogfen argymhellion, yr oedd ei Phenderfyniad wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor yn gynharach yn y mis drwy'r llwybr cyfathrebu e-bost a gytunwyd, ac oedd yn awdurdodi gwerthu'r rhydd-ddaliad ar eiddo Harlech i Mr Leslie Banks Irvine am swm o £200,000. Roedd ymweliad safle i'w gynnal yn ddiweddarach yn yr wythnos gyda'r darpar brynwr. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau Grŵp Llywio Harlech am ddod â'r mater hwn yn agos at benderfyniad, ac awgrymodd David Elis-Williams y dylai rhannau o'r ddogfen argymhell/penderfyniad ffurfio'r sail ar gyfer y datganiad i'r wasg canlyniadol ar y mater, lle y bo'n briodol, ac ar gyfer adroddiad y gellid trefnu ei fod ar gael i'n haelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mawrth.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2019

Dechreuodd Kathryn Robson drwy adrodd (o gyfarfod Penaethiaid y diwrnod blaenorol) fod dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 wedi'u cyfleu ar lafar. Y canlyniad ar gyfer y sefydliad oedd bod y diffyg sylweddol, gwreiddiol yr adroddwyd amdano mewn cyfarfodydd blaenorol bellach yn gynydd o 2% yn lle hynny, ond nad oedd yr arian a adferwyd i fod yn y categori 'ychwanegiad prinder' (a oedd wedi'i ddiddymu mewn gwirionedd ar gyfer pob darpariaeth ran-amser) ac yn hytrach byddai yn categori o'r enw 'pontio'. Yn y drafodaeth, cafodd ymrwymadau ysgrifenedig amryw o wleidyddion a phleidiau

gwleidyddol i “hawl i ddysgu gydol oes” eu nodi gan aelodau'r Cyngor; ond golygai lobiö gan golegau fod arian ar gyfer darpariaeth amser llawn i oedolion iau yn bennaf wedi derbyn y setliad cyllid mwyaf ffafriol.

Trodd y sylw wedyn at yr adroddiadau rhanbarthol/cenedlaethol ar gyflwyno'r cwricwlwm. Roedd dadl ynghylch y cymorth llythrennedd yr oedd ei angen ar fyfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a **phle am gysondeb wrth adrodd am ddiweddariadau rhanbarthol, gan ddefnyddio is-benawdau safonedig**. Roedd Gerry Jenson wedi cyflwyno dau gwestiwn ysgrifenedig: ar y duedd tair blynedd ar i lawr ar Lefel 2 Addysg Sylfaenol Oedolion, dywedwyd bod ein Hadroddiad Hunanasesu yn pennu'r sylw a fyddai'n cael ei roi i newid hynny; a byddid yn mynd ar drywydd cynyddu ymwybyddiaeth staff yn gyffredinol ynghylch rolau Swyddog Diogelu chwe chydweithiwr. Ychwanegodd Julie Cook fod Wales TUC Cymru wedi symud yn ddiweddar at Agored Cymru fel corff achredu, sef consesiwn cyntaf i statws datganoledig ar faterion addysgol gan Gyngres yr Undebau Llafur.

Mewn ateb i gwestiwn ar swydd y Swyddog Codi Arian, byddai hwn yn benodiad cyfnod penodedig o 18 mis, gyda thargedau cyllido i'w bodloni. Yn anffodus, dim ond un ymgeisydd a gafwyd yn sgil yr hysbyseb gyntaf, felly byddai'r swydd yn cael ei hail-hysbysebu.

7. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2018; ynghyd ag Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol drafft ar gyfer 2017-18, a Chyfrifon Rheoli ar gyfer Awst – Rhagfyr 2018

O ran y cofnodion, nododd Cadeirydd y Pwyllgor, David Elis-Williams, y drafodaeth aeddfed a gynhaliwyd o dan gofnod 10 ar dreuliau teithio staff addysgu (tiwtoriaid), lle'r oedd gwahaniaeth barn cryf. Gan droi at yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol drafft ar gyfer 2017-18, roedd y rhain wedi'u hadolygu'n fanwl gan y Pwyllgor: roeddent yn adrodd yn gadarnhaol am gyrraedd targedau addysgol a bod pob un o'r 6 amcan ariannol wedi'u bodloni, gydag addasiadau i'r gronfa bensiwn yn achosi i warged bach fel arall i fynd i ddiffyg ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Roedd yr Adroddiadau Ariannol drafft eisoes wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion ein Memorandwm Ariannol gydag ef, ond byddai'r copi llofnodedig yn cael ei anfon ato yn dilyn cymeradwyaeth yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mawrth. **Ni wnaeth y Cyngor unrhyw ddiwygiadau i'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol drafft, gan eu cymeradwyo i'w cadarnhau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.**

O ran y cyfrifon rheoli yn ymwneud â phum mis cyntaf blwyddyn ariannol 2018-19, **gofynnodd Toni Schiavone am eglurhad am y gwahaniaeth o £3,450 yn y ffigurau a ddyfynnwyd ar dudalennau 2 a 3 ar gyfer dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i ni am y flwyddyn.** Nododd Adele Gatt fod amryw o ragdybiaethau ceidwadol wedi'u cynnwys yn y cyfrifon - fel cyllidebu gwariant pensiwn fel pe bai'r holl staff yn derbyn cyfraniadau llawn at y cynlluniau; a'r holl wariant yn gysylltiedig â phrosiectau yn cael ei gategoreiddio i fod yn gyfartal i incwm y prosiectau ar hyn o bryd, er bod disgwyl y byddai rhai costau gorbenion yn cael eu cymryd yn gyfreithlon o'r grantiau. Cadarnhawyd pe bai gwerthiant safle Coleg Harlech yn mynd rhagddo, yna byddai'r swm a dderbynnir yn ymddangos fel llinell incwm ychwanegol yng nghyfrif Incwm a Gwariant y flwyddyn.

8. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 12 Rhagfyr 2018; ynghyd ag Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i Lywodraeth Cymru a'r Gofrestr Risg ar gyfer Ionawr 2019

Nododd Chris Franks, fel Cadeirydd y Pwyllgor, y cyfarfod 'preifat' mwy ffurfiol erbyn hyn ar gyfer aelodau'r Pwyllgor gyda'r archwilydd allanol, heb fod staff yn bresennol (cofnod 3); y polisi tendro diwygiedig oedd i ddod gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf (cofnod 7); y sicrwyddau ychwanegol a

dderbyniwyd ynglŷn â'r cytundeb â staff Coleg y Cymoedd (cofnod 9); a bod amserlen gweithredu TG i ddod gerbron y Pwyllgor (cofnod 11). Nodwyd cynnwys adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, oedd yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru.

O ran y Gofrestr Risg, ategodd Guy Wallace Smith ei ganmoliaeth, a ddatganwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, i'r fformat a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd y pwyntiau a godwyd arno i gyd yn ymwneud â'r risgiau ariannol ar frig y Gofrestr. Gyda chyllid Llywodraeth Cymru yn gyfwerth â 90% o incwm y sefydliad yn 2017-18, teimlwyd y dylai pwynt 1.1.1 gyfeirio at y sefyllfa honno; ac roedd pwyntiau 1.1.2 ac 1.1.3 yn teilyngu cael eu graddio'n Risgiau Net uwch efallai gan eu bod nhw hefyd yn risgiau ariannol allweddol yn gysylltiedig â chyllid llywodraeth.

9. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) yr Uwch Dîm Rheoli, 2018-19

Arhosodd yr holl ddangosyddion fel rhai oren yn yr adroddiad cynnydd, er yn arlliw oren gwahanol i hynny a ddefnyddiwyd yn y Gofrestr Risg – **byddai cysondeb o ran arlliwiau yn cael ei werthfawrogi ar hwn**. Pan wnelir y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru'r ynglŷn â'i fframwaith ariannu addysg bellach yn y dyfodol a ddisgwyliwyd yn ystod mis Mawrth, y tebygrwydd oedd y byddai'n adlewyrchu'r opsiwn Model 1 yn cynrychioli'r newid lleiaf yn y ddarpariaeth, yn hytrach na Model 3 yr oeddem ni'n ei ffafrio gyda chorff cydgysylltu cenedlaethol. (Efallai mai annoeth oedd cynnwys y mater hwn fel un o'r dangosyddion o dan bwynt 2.2 yn y papur, gan fod y penderfyniad allan o'n dwylo ni.) Fodd bynnag, heb unrhyw Weinidog dros Addysg Bellach ar wahân bellach, gallai fod oedi pellach eto o ran datganiad cyhoeddus a gweithredu arno. Roedd papur a gyflwynwyd gennym ar y mater hwn i fynd gerbron Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ym mis Chwefror, lle byddai'r Gweinidog Addysg yn bresennol. Mynegwyd y farn gan lawer ei bod yn anghywir i Lywodraeth Cymru gategoreiddio ein cannoedd o ymatebwyr i ymarferiad ymgynghori'r fframwaith fel un ymateb yn unig i bob pwrpas: nid oeddent yn cynrychioli un ateb sefydliadol, ond yn hytrach barnau unigolion a phartneriaid - yn gwbl wahanol i natur gorfforaethol y rhan fwyaf o ymatebion eraill a gyflwynwyd.

10. Adborth ar gyfarfod y Cyngor

Ystyriwyd bod dyblu'r cyfleuster cyfieithu ar y pryd wedi mynd yn dda. Roedd y fideo-gynadledda wedi gweithio'n dda yn weledol – roedd ansawdd y llun yn gwella o hyd – ond roedd gormod o sŵn cefndir (yn enwedig o ben Iard y Cowper) yn cael ei achosi yn sgil gosod y microffonau ar y desgiau'n uniongyrchol, gan chwyddo unrhyw seiniau ar y byrddau felly. Ansawdd y sain yr oedd angen rhoi mwy o sylw iddo felly. Cytunwyd y dylai o leiaf un cyfarfod o'r Cyngor y flwyddyn fod mewn un lleoliad; ac y dylai dyddiad mis Gorffennaf ddyblu fel diwrnod cynllunio strategol yn cael ei gynnal mewn un lle, fel yn 2018. Dylai mewnbyn dysgwyr fod ar yr agenda eto ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

11. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill i'w cynnal, a gadarnhawyd ar gyfer 2019

- Dydd Llun 4 Mawrth: Y Drenwydd
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Sadwrn 23 Mawrth: Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Dydd Gwener 17 Mai: Glynebwy
- Dydd Iau 18 Gorffennaf: Cyffordd Llandudno

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Gweithredu a gytunwyd	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 2	Hyfforddiant a ffilm gwybodaeth am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018	Gwirfoddolodd Cathy Clark ac fe'i cadarnhawyd fel aelod o'r Cyngor a fyddai'n cysylltu gyda gweithgor y staff ar y ddeddfwriaeth.	CH / Martyn Reed	Chwefror 2019
Cofnod 4	Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 22 Tachwedd 2018 a materion yn codi	Cytunodd y Cyngor i beidio â gorfodi'r setliad ar hyn o bryd ond roedd yn cadw'r hawl i ailystyried y safbwynt hwnnw yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth, pe bai sefyllfa ddiddatrys yn parhau. O ystyried bod penderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Adnoddau yn parhau, pe bai cytundeb gyda'r undebau llafur yn y cyfamser, yna gellid gweithredu taliad y setliad heb ystyriaeth bellach gan y Cyngor. Byddai papur ystadegol cefndir cynhwysfawr ar diwtoriaid y sefydliad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ym mis Mawrth.	KR / CH / MB CH	Chwefror 2019 Mawrth 2019
Cofnod 6	Adroddiad y Prif Weithredwr, Ionawr 2019	Gwnaethpwyd cais am gysondeb wrth adrodd am ddiweddiadau rhanbarthol, gan ddefnyddio is-benawdau safonedig.	KR / MK	Mawrth 2019
Cofnod 7	Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2018	Ni wnaeth y Cyngor unrhyw ddiwygiadau i'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol drafft, gan eu cymeradwyo i'w cadarnhau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gofynnwyd am eglurhad am y gwahaniaeth o £3,450 yn y ffigurau a ddyfynnwyd ar dudalennau 2 a 3 y cyfrifon rheoli ar gyfer dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i ni am y flwyddyn.	AG / ST AG / MB	Mawrth 2019 Mawrth 2019
Cofnod 9	Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli (DPAau), 2018-19	Byddai cysondeb o ran arlliwiau rhwng y ddogfen hon a'r Gofrestr Risg yn cael ei werthfawrogi.	KR / MB	Mawrth 2019